Ce ROMA (PETHE MYND I FOD YN IAWN)

Dwy mynd i adel yr hen dre ‘ma
Rho’i y beic ar long a hwylio o ‘ma
Dechre gwylie haf a fydd yn yrfa
Fe glywes i fod pethe mynd i fod yn iawn.

Dwy am ddilyn yr haul dros y paithe
Dros pob fynydd a’r gwastadedde
Cyfarfod ffrindie newydd weithie
Fe glywes i fod pethe mynd i fod yn iawn.

Ma’ ‘na threfi bach ger glan afonydd
Heb yr un gwaith dur na’ glofa lonydd
Ond gwaith i bawb sy’ teimlo’r awydd
Fe glywes i fod pethe mynd i fod yn iawn.

Dwy am fynd yn ôl i Galiffornia
Does bron byth glaw na thywydd o’r ‘na
Byw y bywyd da yn Santa Barbara
Fe glywes i fod pethe mynd i fod yn iawn.

O na cer o ‘ma, o na cer o ‘ma
O na paid, cer o ‘ma
Sneb yn credu gair!

© Geraint Griffiths 2001